Coedwig Genedlaethol Cymru
National Forest for Wales

# Cynllun Tirwedd Coedwig Genedlaethol Cymru 2025/2027

## 1. Cefndir

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, mae Coedwig Genedlaethol Cymru[1] yn bwriadu datblygu gwaith ar raddfa tirwedd ymhellach i gyflymu ei dwf.

Er mwyn cyflawni'r dull strategol hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu partneriaethau uchelgeisiol i gyflawni gweithgareddau allweddol sy'n:

- gwireddu manteision **economaidd, cymunedol, bioamrywiaeth** a **hamdden** Coedwig Genedlaethol Cymru
- cynnwys **cydweithio rhwng nifer o berchnogion tir** ar raddfa tirwedd
- cyflawni pob un o **6 chanlyniad Coedwig Genedlaethol Cymru**

Mae cyllid gwerth £4.3M (£2.15M ar gyfer 2025/2026 a £2.15M ar gyfer 2026/2027) ar gael drwy Bartneriaethau Natur Lleol.

Rhaid cwblhau pob cynnig a gymeradwywyd erbyn **31 Mawrth 2027**.

## 2. Pwy all wneud cais?

Bydd y Gronfa yn cael ei rheoli a'i dosbarthu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) fel Rheolwr y Cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cynllun Partneriaethau Natur Lleol. Bydd ffenestr o'r Gronfa Her yn cael ei hagor o fewn y cynllun hwn i gynnal y broses ymgeisio. Mae'r Gronfa Her yn gronfa gaeedig o fewn y cynllun sydd ar gael i bob un o'r 25 o Bartneriaethau Natur Lleol ar draws Cymru i wneud cais ar ran grwpiau o fewn eu partneriaeth.

Yn sgil natur gydweithredol y cynllun hwn a'r ffaith ei fod ar raddfa tirwedd, rydym angen nifer o sefydliadau/awdurdodau/perchnogion tir (hy. mwy na 2 bartner/perchennog tir) i gyflwyno cynigion sy'n cwmpasu nifer o safleoedd. Bydd angen ymgeisydd arweiniol ar gyfer unrhyw gais partneriaeth, a disgwylir mai hwn fydd y corff fydd yn cynnal Cydlynydd y Bartneriaeth Natur Lleol.

Nid yw'n ofyniad i unrhyw un o'r partneriaid neu'r safleoedd arfaethedig fod â Statws Coedwig Genedlaethol eisoes, ond rhaid i brosiectau llwyddiannus sy'n cynnwys coetiroedd wneud cais am statws Coedwig Genedlaethol drwy'r ‘Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol’ cyn cwblhau eu prosiect. Rydym yn annog ymgeiswyr i gysylltu â Swyddog Cyswllt Coetir lleol Coedwig Genedlaethol Cymru a fydd yn gallu cynghori ar gyflawni'r Canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol a'r broses ymgeisio ar gyfer y Cynllun Statws. Bydd gweithgarwch prosiectau llwyddiannus yn gwneud cyfraniad sylweddol at y dystiolaeth sydd ei hangen i sicrhau statws Coedwig Genedlaethol.

[1] Coedwig Genedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU

Gellir gweld rhagor o fanylion am y broses ar gyfer safle sy'n ymgeisio am Statws Coedwig Genedlaethol drwy'r canlynol - https://www.llyw.cymru/coedwig-genedlaethol a thrwy gysylltu â Swyddog Cyswllt Coetir lleol Coedwig Genedlaethol Cymru.

### 3. Pa fath o brosiectau sy'n gymwys?

Mae canllawiau presennol Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gyfer y Gronfa Her yn berthnasol i'r cynllun cynllun hwn.

Rydym am gefnogi prosiectau tirwedd arloesol, sydd *yn eu cyfanrwydd* yn cyflawni holl ganlyniadau a ganlyn Coedwig Genedlaethol Cymru (gallai pob un sy'n cymryd rhan ganolbwyntio ar ganlyniadau unigol os oes angen):

- coetiroedd gwydn o ansawdd uchel, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda
- coetiroedd sy'n hygyrch i bobl
- y gymuned yn cymryd rhan yn y coetiroedd
- coetiroedd cysylltiedig
- coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas
- coetiroedd sy'n arddangos dysgu, ymchwil ac arloesi

Dylai ceisiadau geisio adlewyrchu a dangos cymaint o'r canlynol â phosibl (heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Wedi eu gwreiddio yn anghenion eu 'lle' a'r effaith y gall coed ei chael ar eu cymuned/ardal.
- Ymgysylltiad cryf â'r gymuned:
  - cynnig cyfleoedd i gymunedau difreintiedig gael mynediad at goetir a natur.
  - creu cyfleoedd lleol, cynaliadwy ac economaidd mewn ardaloedd gwledig.
- Cyflawni yn erbyn amcanion polisi coedwigaeth ehangach:
  - Plannu Coed (gweler **Atodiad A** am ragor o fanylion ac enghreifftiau)
  - Gwell mynediad a chysylltedd
  - Datblygu Sgiliau
  - Gwerth economaidd coetiroedd
  - Cefnogi gwaith ymgysylltu ehangach â'r gymuned drwy addysg, datblygu sgiliau a chyfleoedd gwirfoddoli
  - Dulliau arloesol o reoli coetiroedd a thirwedd a threialu ac arddangos arferion newydd

Ni fyddai'r cyllid hwn yn caniatáu ariannu ddwywaith ar gyfer safleoedd sydd â gweithgareddau ariannu a gwmpesir gan ‘Y Grant Buddsoddi mewn Coetir’[2] neu'r ‘Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig’[3].

### 4. Faint o arian a gaf i wneud cais amdano?

Mae cyfanswm cyllideb o £4.3 miliwn (£4M Cyfalaf, £300k Refeniw) ar gyfer y gronfa. Bydd cynigion sydd rhwng £50k-£250k yn cael eu hystyried. Er mwyn

[2] Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (rownd 6)| Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
[3] Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

adlewyrchu cyfanswm y cyllid Cyfalaf a Refeniw sydd ar gael, ni ddylai fod mwy na 7% o gostau Refeniw fesul cais. Rhaid cwblhau a hawlio ar gyfer pob prosiect erbyn **31 Mawrth 2027**. Dylid gwneud un cais ar gyfer pob prosiect. Gellir gwneud cais am fwy nag un prosiect neu gydweithrediad, ond dylid rhestru'r rhain yn nhrefn ffafrio cyllid.

## 5. Ar beth y gellir gwario'r arian?

Mae hon yn gronfa grantiau cyfalaf a refeniw ac mae'n darparu'r capasiti i ddatblygu ar waith cydweithio presennol a/neu newydd, ac ymgysylltu â chymunedau, busnesau a sefydliadau fel awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill.

Rydym yn bwriadu i'r cynllun hwn fod mor hyblyg â phosibl er mwyn cefnogi llawer o weithgarwch arloesol ac uchelgeisiol i ddatgloi manteision coetiroedd i gymunedau lleol.

**Enghreifftiau o weithgareddau**

Roedd enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau a gefnogwyd drwy'r cynllun peilot blaenorol sy'n adlewyrchu'r dull tirwedd yn cynnwys:

Gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned i bobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, gwella mynediad at goetiroedd a mwynhad ohonynt, gyda gwelliannau ac atgyweiriadau i seilwaith, darparu hyfforddiant ac arddangosfeydd i wirfoddolwyr a grwpiau ar sgiliau coetir traddodiadol, fel bondocio a phlannu coed, prosesu pren a echdynnwyd ar y safle ar gyfer prosiectau seilwaith ac archwilio cyfleoedd economaidd cynaliadwy drwy eu treialu a'u harddangos gan ddefnyddio melin goed symudol a llunio canllaw ar gyfer perchnogion a rheolwyr coetiroedd sy'n anelu at gael elfen gymdeithasol yn eu coetiroedd amlbwrpas, er mwyn sicrhau manteision economaidd a chymunedol.

Cysylltu'r coetiroedd, coed gwrychoedd/perthi, tir pori a mawndiroedd eu coedwigoedd lleol ar gyfer creu cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth a gwaith ymgysylltu ehangach â'r gymuned. Maent yn darparu coridorau cynefinoedd, cartrefi a ffynonellau bwyd ar gyfer bywyd gwyllt. Maent yn darparu cysgod ar gyfer da byw. Maent yn darparu cyfle newydd i ddysgu a gwneud gwahaniaeth i natur ar gyfer y gymuned leol.

Defnyddio'r cynefinoedd coetir lleol pwysig a safle newydd i ymgysylltu â phobl a meithrin sgiliau sy'n cynyddu canlyniadau economaidd, cymunedol a bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â choetiroedd a choed. Roedd gweithgareddau allweddol yn cynnwys cynnal nifer o weithdai yn ymwneud â Sgiliau Perllannau, Cysylltiad â Natur, Amaeth-goedwigaeth a Sgiliau Adnabod Coetiroedd; gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys sesiwn ar blygu Helyg gydag ysgol leol; a darparu Hyfforddiant ar Arolygon Ecolegol a gwaith mapio GIS.

Dylai costau mewn perthynas â gweithgarwch plannu coed a ffensio neu waith tebyg ddilyn cyfraddau costau/taliadau fel y nodir yng ngrantiau Creu Coetir Llywodraeth

Cymru. Bydd angen i unrhyw gostau sy'n uwch na'r cyfraddau safonol (h.y. dros 10%) ddarparu cyfiawnhad dros gostau uwch.

Gan fod hwn yn gynllun dim cymorth, ni fydd eitemau ac asedau sy'n arwain yn uniongyrchol at gynhyrchu elw fel eu prif bwrpas yn gymwys.

Cyfrifoldeb y prif ymgeisydd yw cael gafael ar gymeradwyaethau/caniatadau penodol sydd eu hangen i gynnal gweithgaredd ar gyfer cynigion. Bydd angen darparu tystiolaeth bod gan y cynnig y caniatâd/awdurdod perthnasol i gefnogi ceisiadau.

Mae **Atodiad A** yn rhoi rhagor o fanylion ar gostau cymwys y gellir eu cefnogi drwy'r cynllun hwn.

Cysylltwch â CoedwigGenedlaetholCymru@llyw.cymru am unrhyw eglurhad pellach ynglŷn â gweithgareddau cymwys.

## 6. Yr Amserlen

Y dyddiad cau disgwyliedig ar gyfer ceisiadau yw: **08 Medi 2025.**

Bydd y rhain yn cael eu hasesu gan banel annibynnol a gydlynir gan CGGC a bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu erbyn **19 Medi 2025**. Mae'n bosibl y bydd cyfnod ymgeisio arall yn agor yn ddiweddarach yn 2025/dechrau 2026 yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael.

**Atodiad A**

**Enghreifftiau o Weithgareddau Posibl:**
Enghreifftiau o bynciau y gallai cynllun tirwedd Coedwig Genedlaethol Cymru ariannu partneriaid neu reolwyr tir i ddod ynghyd i gyflawni (dim ond meysydd a awgrymir yw'r rhain – **rhaid** i brosiectau fod yn berthnasol i anghenion y lle):

- Gwella cyfleoedd cymunedol ar gyfer ymgysylltu â choetiroedd ar draws ardal.
- Nodi a chynnig datrysiadau lleol i lenwi bylchau sgiliau, neu fylchau gwybodaeth/ymchwil sy'n ymwneud â choetir mewn ardal benodol
- Datblygu a darparu a sicrhau adnoddau ar gyfer cynllun / gweledigaeth gyffredinol ar gyfer coed.
- Datrysiadau datblygu economaidd arloesol yn seiliedig ar goetir ar gyfer ardal benodol i gynyddu sgiliau, rhagolygon swyddi, a hyfywedd economaidd coetiroedd lleol.
- Darparu datrysiadau cyfannol sy'n seiliedig ar natur i ardal goetir sy'n gwella bioamrywiaeth ac yn lleihau'r risg o lifogydd.

**Gallai gweithgarwch a gyllidir gynnwys:**

- Caniatawyd plannu coed ar raddfa gyfyngedig drwy'r cynllun peilot, ond rydym bellach yn ceisio cynyddu a manteisio i'r eithaf ar y gwaith plannu y gallwn ei gefnogi ar raddfa fwy. Byddwn yn cyhoeddi Atodiad ychwanegol i'r canllawiau hyn sy'n nodi rhagor o fanylion maes o law. Er mwyn helpu gyda'r broses hon, rydym yn annog Partneriaethau Natur Lleol i roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os oes ganddynt unrhyw gynlluniau ar gyfer lefelau sylweddol (h.y. dros 2ha) o blannu coed oherwydd gallai'r cynllun hwn helpu gyda'r costau.
- Adeilad neu offer i ymgysylltu â chymunedau lleol o ran datblygu sgiliau neu gyfleoedd busnes, gan ddefnyddio potensial eu coetir ar draws sawl parsel tir gwahanol mewn ardal ddiffiniedig.
- Gweithgareddau hamdden sy'n cefnogi cymunedau lleol i reoli eu coetiroedd lleol yn gynaliadwy, gwireddu eu budd economaidd, a'u diogelu.
- Gweithgaredd ymchwil sy'n ymgysylltu â chymunedau lleol ar gyfer cynaliadwyedd eu coetir.
- Gweithgareddau sy'n cynnwys cymunedau mewn gwaith datblygu economaidd lleol yn eu coetir ac o'i gwmpas.

**Mae'r gweithgareddau nad ydynt yn cael eu cefnogi gan y cynllun yn cynnwys:**

**Clefyd coed ynn ac ail-stocio**
Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau i reoli neu gael gwared ar glefyd y coed ynn yn unig.
Gellir ystyried prosiectau sydd ag elfen fach o glefyd y coed ynn – fel rhan o brosiect ehangach i adfer a gwella natur. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos cynnydd i fioamrywiaeth a chreu ecosystemau gwydn.

Nid yw ailstocio coed ar safle lle mae coed wedi'u cwympo yn gymwys i gael cyllid o dan y cynllun hwn. Mae ailstocio yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer trwyddedau cwympo coed ac ni ellir ei ariannu drwy'r cynllun hwn.

**Costau anghymwys**

Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o weithgareddau **nad ydynt** yn gymwys ar gyfer cynllun Tirwedd y Goedwig Genedlaethol Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr, a bydd pob un o'r eitemau gwariant yn cael eu hystyried fesul achos:

- prynu tir
- cost lesio tir
- prosiectau sy'n ymwneud â chael gwared/rheoli clefyd coed ynn yn unig
- ail-stocio coed ar safle lle mae'r coed wedi'u cwympo
- gwaith rydych chi'n gyfrifol yn gyfreithiol am ymgymryd ag ef
- unrhyw waith ffisegol ar y safle a wnaed cyn y dyddiad awdurdodedig ar gyfer dechrau'r prosiect
- eich costau llafur a'ch cyfarpar eich hun
- cyfarpar a dodrefn swyddfa cyffredinol
- gweithgareddau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith